

Os nad os llawer o le yn eich gardd, gallwch ddal i wneud cartrefi gwyh ar gyfer pryfed sy'n gwneud daioni trwy adeiladu llety llai o faint neu greu cartref mewn pentwr coed. Mae llu o bryfed yn byw mewn pren marw a stwff eilgylch a deunydd naturiol.


Llety llai

Bydd arnoch angen

- + Cymysgedd o'r rhain:
 - potel blastig a'r gwaelod wedi ei dorri i ffwrdd
 - pot planhigion
 - cwpan coffi papur neu gardfwrdd
- + Cansenni bambŵ
- + Papur newydd
- + Cardfwrdd rhychog
- + Siswrn
- + Brigau bach, dail sych, conau pinwydd, ac ati
- + Unrhyw ddeunydd naturiol eraill sydd ar gael

Beth i'w wneud


- 1 Gwnewch roliau papur-newydd trwy dorri'r papur ar ei hyd a'i rolïo'n diwb. Gwnewch yn siwr bod canol y tiwb yn wag, Gallwch wneud roliau cardfwrdd rhychog hefyd.
- 2 Torrwch y papur neu'r cardfwrdd i'r un hyd â'r cynhwysydd sydd i'w dal.
- 3 Gwasgwch y dail ac ati yn dynn i'r cynhwysydd fel na allant syrthio allan. Gwnewch yn siŵr fod pennau'r cansenni bambŵ yn wynebu allan, wedi eu cysgodi rhag y glaw
- 4 Rhowch eich llety mewn man cynnes, tawel, ddim mwy na 1m uwchlaw'r ddaear â'r pen agored ychydig yn is er mwyn i'r glaw lifo allan. Mae coed a llwyni yn llefydd da.



Tŷ'n y coed

Bydd arnoch angen

- + Boncyffion, brigau, canghennau a/neu
- + Dail a/neu
- + Toriadau o lwyni



Beth i'w wneud

- 1 Dewiswch gornel gysgodol o'ch gardd. Gwnewch bentwr bach o foncyffion, brigau a dail o wahanol faint yno.
- 2 Gwyliwch wrth i'ch pentwr bach ddenu nifer fawr iawn o bryfed i'ch gardd.

